cymorth cristnogol christian aid

80 mlynedd years

# Gorlawn â gobaith

Wythnos Cymorth Cristnogol 11-17 Mai



Aurelia gyda phump o'i hwyrion annwyl. (O'r chwith i'r dde) Daily, Sheny, Karla, Nestor ac Andy.

# Defosiwn dyddiol



Mae Aurelia yn mynd i'r afael â sawl bygythiad i oroesiad ei theulu.

# Croeso i'ch wythnos o **weddïo a myfyrio**

Dychmygwch blannu hadau gyda gofal tyner. Maen nhw'n dechrau tyfu. Ond wedyn yn sydyn iawn, mae'r planhigion rydych chi wedi eu meithrin yn ofalus yn gwywo ac yn marw o flaen eich llygaid. Rydych chi'n dibynnu ar y cnydau hynny i fwydo eich teulu. Beth fuasech chi'n ei wneud yn y sefyllfa honno?

Dyna'r her mae Aurelia a'i chymuned yn ei hwynebu yn rhanbarth Alta Verapaz yn Guatemala. Yno, mae bywoliaeth, traddodiadau a goroesiad cymunedau ffermio brodorol dan fygythiad sychder angheuol, stormydd niweidiol a phlanhigfeydd diwydiannol.

Mae'r argyfwng hinsawdd yn achosi'r tymhorau sych a glawog, a fyddai ar un adeg yn cyrraedd ar adegau yr oedd modd eu rhagweld, i ddwysáu a newid yn afreolaidd. O ganlyniad, mae cnydau hanfodol yn methu, gan olygu bod teuluoedd ffermio yn wynebu newyn a thlodi.

Mae Aurelia – sydd wedi magu wyth o blant ac sydd bellach yn helpu i ofalu am ei hwyrion annwyl – wedi bod yn gyfarwydd â'r tir hwn am y rhan fwyaf o'i hoes, gan ffermio i gynorthwyo ei theulu a'i chymdogion.

Mae hi wedi gweld newidiadau radical. Pan ddaeth Aurelia i'r goedwig, **'roedd llawer o ddŵr yn agos at y gymuned, a doedd hi ddim mor boeth â hynny.'** Heddiw, mae'n stori wahanol. **'Mae ein ffynonellau dŵr yn sychu. Mae'n golygu na allwn ni ddyfrhau'r cnydau, a does dim bwyd yn cael ei gynhyrchu,'** meddai. Mae'r sefyllfa yn sobri rhywun. **'Mae newid yn yr hinsawdd wedi bod yn lladd ein cnydau, a dyma ein bwyd ni.'** Er gwaethaf hyn, mae Aurelia yn llawn gobaith. Yn arweinydd ysbrydoledig ac uchelgeisiol, mae hi'n gweithio i drawsnewid sut mae ei chymuned yn ffermio gyda hyfforddiant arbenigol gan Congcoop, un o bartneriaid Cymorth Cristnogol. Mae hi'n defnyddio dulliau sy'n gweithio gyda natur ac yn helpu i fynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng hinsawdd.



Aurelia yn gweddïo yn yr eglwys.

**Yn y Defosiwn Dyddiol hwn, rydym yn eich gwahodd i ddysgu mwy am Aurelia a'i chymuned.** Gyda'n gilydd, byddwn yn myfyrio ar y cysylltiadau rhwng rhannau o'r Beibl a phrofiad Aurelia wrth iddi wynebu heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Yn ystod saith diwrnod Wythnos Cymorth Cristnogol a thu hwnt, mae cymaint o ffyrdd y gallwch chi gynorthwyo pobl fel Aurelia i amddiffyn eu cymunedau rhag newyn a thlodi. Gyda'ch gweithgareddau codi arian, rhoddion, gweddïau a gweithredoedd, gallech helpu i ddatgloi dulliau ffermio sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd ar gyfer mwy o bobl, er mwyn gwireddu eu gobeithion.

**Mae Cymorth Cristnogol wedi gweithio yn Guatemala ers dros 48 mlynedd.**

Ynghyd â'n partneriaid, rydym yn cefnogi hawliau pobl, gan gynnwys hawliau cymunedau brodorol. Rydym yn gweithio dros gyfiawnder hinsawdd, gan herio achosion strwythurol yr argyfwng hinsawdd, a chefnogi ffermwyr i gynyddu eu cydnerthedd. Rydym yn dal sefydliadau'r wladwriaeth i gyfrif er mwyn sicrhau tegwch i bawb. Rydym hefyd yno i gynnig cymorth dyngarol pan fydd trychinebau'n digwydd - pethau fel corwyntoedd, er enghraifft.

Drwy ein gwaith gyda Congcoop, mae Cymorth Cristnogol yn cynorthwyo cymunedau i ddefnyddio eu gwybodaeth am arferion ffermio cynhenid, ochr yn ochr â hyfforddiant mewn dulliau cynaliadwy newydd. Diolch i Congcoop, mae teuluoedd yn gallu addasu'n well i dywydd poeth, sychder a stormydd, a thyfu'r bwyd sydd ei angen arnyn nhw.

# Dydd Sul

**‘Mae Duw yn ei haelioni wedi rhannu rhyw ddawn neu’i gilydd i bob un ohonoch, a dylech wneud defnydd da ohoni drwy wasanaethu pobl eraill’** (1 Pedr 4:10)

**Darllenwch 1 Pedr 4:7-11**



**Mae Aurelia wedi ymrwymo i ddod â gobaith a thrawsnewidiad i’w chymuned.**

Dyma Aurelia. Mae hi’n aelod o gymuned frodorol Q’eqchi’ (sy’n cael ei ynganu ‘Co-WÊ-tshi’) rhanbarth Alta Verapaz yn Guatemala. Mae Aurelia yn ffermwr ac yn arweinydd dros newid. Mae hi’n dysgu ffyrdd newydd i bobl eraill yn ei chymuned dyfu cnydau bwyd a fydd yn eu helpu i oroesi effeithiau dinistriol yr argyfwng hinsawdd. **‘Rydw i wir yn rhoi fy mywyd i fy nghymdogion, gan rannu fy ngwybodaeth,’** dywedodd Aurelia wrth Cymorth Cristnogol.

Mae geiriau Aurelia yn mynegi’r alwad rydym yn ei rhannu fel Cristnogion i ddefnyddio ein bywydau i wasanaethu eraill. Mae ein darlleniad heddiw yn ein hannog i garu ein gilydd yn ddwfn a dangos y cariad hwnnw drwy ddefnyddio’r hyn rydym wedi ei gael gan Dduw er budd eraill. Nid yw’r alwad hon i wasanaethu yn hawdd. Mae’n gofyn i ni edrych tuag allan – i roi o’n hamser, ein hadnoddau a’n hegni. O ran heriau byd-eang fel yr argyfwng hinsawdd, gall y problemau ymddangos mor enfawr fel y gallem argyhoeddi ein hunain nad oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud.

Ond fel Aurelia, gallwch newid bywydau gyda’ch doniau. Mae Congcoop, un o bartneriaid Cymorth Cristnogol, yn cefnogi cymunedau brodorol i fod yn fwy cydnerth yn wyneb yr argyfwng hinsawdd drwy hyfforddiant amaethyddol arbenigol. Gyda’ch cefnogaeth chi, gellir hyfforddi mwy o bobl mewn technegau sy’n eu galluogi i fwydo eu teuluoedd.

**Ystyriwch y doniau rydych chi wedi eu cael. Gweddïwch dros y rhain yn ddiolchgar.** Beth allech chi ei gynnig i wasanaethu eich cymdogion byd-eang yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni? Ewch i **caweek.org** i gael gwybod sut i roi, gweithredu a gweddïo dros y saith diwrnod nesaf a thu hwnt.

**Dduw cariadus,**
helpa ni i wasanaethu ein gilydd,
gan rannu ein doniau a’n talentau.
Llenwa ni â haelioni a thosturi.
**Amen.**

# Dydd Llun

**'Beth dw i eisiau ydy gweld cyfiawnder fel dŵr yn gorlifo, a thegwch fel ffrwd nant sydd byth yn sychu.'** (Amos 5:24)

**Darllenwch Amos 5:11-15 a 21-24**

Mae Aurelia a menywod eraill yn ei chymuned yn casglu dŵr ddwywaith y dydd o lyncdyllau naturiol sy'n cael eu galw'n ffynhonnau 'cenote'. Mae'n daith gerdded sy'n gallu cymryd bron i awr bob ffordd ac mae angen i Aurelia groesi llwybr serth a llithrig. Mae casglu dŵr yn cymryd mwy o amser bob dydd i Aurelia a'i chymdogion, gan adael llai o amser ac egni ar gyfer ffermio, coginio neu werthu cynnyrch.

Nid oedd pethau fel hyn bob amser. Mae Ricardo, tad Aurelia, yn cofio pan oedd **'digonedd o ddŵr gerllaw... roedd afon a oedd yn llawn dŵr drwy gydol y flwyddyn, hyd yn oed yn yr haf.'** Ond mae dŵr gwerthfawr yn brin o dan bwysau'r tymheredd uchaf erioed a phlanhigfeydd diwydiannol mawr sy'n monopoleiddio adnoddau ac yn halogi'r hyn sydd ar ôl.



Mae Aurelia yn casglu dŵr o'r ffynnon aberthu.

Yn llyfr Amos, rydym yn dod o hyd i her i unrhyw un sy'n honni ei fod yn addoli Duw tra ar yr un pryd yn gormesu'r diniwed ac yn amddifadu'r tlawd o gyfiawnder. Nid yw Duw yn ddifater ynghylch y ffordd rydym yn trin ein gilydd. Mae disgwyl i ni gymryd camau i sicrhau bod 'cyfiawnder fel dŵr yn gorlifo, a thegwch fel ffrwd nant sydd byth yn sychu.'

Mae'n hynod anghyfiawn bod y ffynonellau dŵr agosach at gartref Aurelia wedi cael eu sychu gan dywydd poeth a'u draenio gan weithredwyr diwydiannol. A wnewch chi helpu i sicrhau bod cyfiawnder yn llifo unwaith eto i Aurelia ac eraill sydd mewn sefyllfa debyg?

**Chwiliwch am ddŵr heddiw.**
Gallech fynd at afon neu draeth lleol, dyfrio planhigyn, neu fynd am dro yn y glaw. Wrth i chi wneud hynny, diolchwch i Dduw am ddŵr bywiol a gwnewch ymrwymiad i weithredu dros gyfiawnder yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

**Arglwydd,** rwyt ti'n caru tegwch a chyfiawnder.
Wrth i ni dorri syched ein hawch amdanat mewn gweddi,
adnewydda ein hymrwymiad i wneud dy ewyllys.
Yn enw Iesu,
**Amen.**

# Dydd Mawrth

**'Mae'r tir yn sych; mae'n gwywo… Mae'r tir ei hun wedi'i lygru gan y rhai sy'n byw arno. Maen nhw wedi anwybyddu'r ddysgeidiaeth, newid y deddfau, a thorri'r ymrwymiad oedd i fod am byth.'** (Eseia 24:4-5)

**Darllenwch Eseia 24:4-8**

Drwy weithgareddau pobl, mae'r byd wedi cael ei 'lygru'. Yn Guatemala, 'mae'r tir yn sych' yn ystod cyfnodau marwol o sychder. Mae'r argyfwng hinsawdd bellach yn cael effaith ddifrifol ar wledydd nad ydyn nhw wedi gwneud fawr ddim i gyfrannu at allyriadau byd-eang. Mae angen i bob un ohonom ystyried ein cyfrifoldeb am y difrod sydd wedi ei wneud i greadigaeth Duw. **Heddiw, meddyliwch am yr effaith rydych chi'n ei chael ar fyd natur a sut gallai eich gweithredoedd effeithio ar y rhai sydd fwyaf agored i argyfyngau hinsawdd.**

Mae cacao yn blanhigyn brodorol yn Guatemala. Fel arfer mae'n gallu gwrthsefyll sychder ond mae hyd yn oed y cnwd hwn yn cael trafferth ymdopi wrth i'r tymheredd godi a newidiadau ddigwydd i batrymau'r cawodydd glaw. Cymunedau brodorol fel un Aurelia sydd wedi cyfrannu leiaf at achosi'r argyfwng hinsawdd, ac eto nhw sy'n talu'r pris. Serch hynny, nid yw Aurelia am roi'r ffidil yn y to.

Manteisiodd ar y cyfle i hyfforddi gyda Congcoop, un o bartneriaid Cymorth Cristnogol, fel ei bod hi'n barod ar gyfer y dyfodol.

Ond ni ddylai Aurelia a'i chymdogion fod yn mynd i'r afael â hyn ar eu pen eu hunain. Am gyfnod rhy hir mae llygrwyr di-hid a benthycwyr barus – sydd wedi cael eu cefnogi gan Lywodraethau – yn caethiwo miliynau o bobl mewn tlodi.

Mae angen i'r rhai sydd wedi achosi'r argyfwng hinsawdd gymryd cyfrifoldeb. Mae angen i ni wneud i lygrwyr dalu am y difrod maen nhw wedi ei wneud mewn gwledydd fel Guatemala. Rhaid i bobl sydd mewn grym wneud safiad a helpu.

A wnewch chi sefyll gydag Aurelia a chymunedau eraill sydd wedi eu heffeithio gan yr argyfwng hinsawdd a galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu? Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **caid.org.uk/CAWpetition**



**Aurelia yn dal pod cacao marw, cnwd sy'n gwrthsefyll sychder fel arfer.**

**Dduw grasol,**
mae'r ddaear wedi cael ei halogi.
Rydyn ni wedi methu gofalu am dy fyd di. Maddau i ni.
Rho'r nerth i ni godi ein lleisiau
a herio'r rhai pwerus.
Boed i ni weithio gyda'n gilydd
i wella'r greadigaeth.
**Amen.**

# Dydd Mercher

**'Bydd y tir yn rhoi digon i chi ei fwyta, a chewch fyw yn saff.'** (Lefiticus 25:19)

**Darllenwch Lefiticus 25:1-19**



Aurelia gyda'i thad, ei merch yng nghyfraith a'i hwyrion a'i hwyresau.

Mae'r bwyd mae teuluoedd fel Aurelia yn dibynnu arno dan fygythiad. Mae Aurelia wedi gweld effeithiau cynyddol newid yn yr hinsawdd yn uniongyrchol: **'Roedd rhai'n dweud y byddai hyn yn digwydd yn y dyfodol, ond mae wedi digwydd yn gynharach na'r disgwyl. Mae hyn yn peri pryder mawr i'n plant ac yn enwedig i'n hwyrion.'**

Mae'r darlleniad o Lefiticus heddiw yn sôn am flynyddoedd y Sabath a blwyddyn y Jiwbilî. Roedd blwyddyn y Jiwbilî yn gyfnod o adfer economaidd ar gyfer y tlawd, yn flwyddyn canslo dyledion ac yn gyfle i ryddhau. Heddiw, mae'r adnodau hyn yn ein cyfarwyddo i ystyried ein gorddefnydd o adnoddau naturiol a'r systemau economaidd anghyfiawn sy'n rhoi cymunedau fel un Aurelia dan anfantais. Mewn gwledydd cyfoethocach, mae llawer ohonom nid yn unig yn cael 'digon i'w fwyta', ond yn gorfwyta. Sut gallwn ni gymryd seibiant sabothol o'r ysfa i gymryd mwy a mwy? Beth allwn ni ei wneud i hyrwyddo cyfiawnder economaidd i bobl Guatemala?

Gall eich cefnogaeth chi yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni helpu ffermwyr fel Aurelia i adfer eu gallu i ddarparu bwyd i'w plant a'u hwyrion a'u hwyresau.

**Y tro nesaf y byddwch chi'n siopa yn yr archfarchnad neu'n paratoi pryd, neilltuwch amser i weddïo.** Cofiwch am y rhai sy'n poeni o ble y daw eu bwyd yn y dyfodol. Gweddïwch y byddwn yn gweld y Jiwbilî yn awr, pan fydd lleisiau'r rhai sydd ar y cyrion yn cael eu clywed ac y bydd y rhai sy'n llwglyd yn 'cael eu digoni'.

**Dduw grasol,**
bwyda ein natur benderfynol,
a meithrin ein hysbryd.
Anfon ni allan i rannu'r
newyddion am y Jiwbilî.
Cynnal ni wrth i ni roi ein
ffydd ar waith.
**Amen.**

# Dydd Iau

**'...gadewch i ni feddwl am ffyrdd i annog ein gilydd i ddangos cariad a gwneud daioni. Mae'n bwysig ein bod yn dal ati i gyfarfod â'n gilydd. Mae rhai pobl wedi stopio gwneud hynny. Dylen ni annog a rhybuddio'n gilydd drwy'r adeg...'** (Hebreaid 10:24-25)

**Darllenwch Hebreaid 10:23-25**

Mae darlleniad heddiw yn ein hannog i "ddal gafael" yn y gobaith a ddaw yn sgil bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist (Hebreaid 10:23). Mae awdur yr epistol at yr Hebreaid yn atgoffa'r Cristnogion cynnar o'r angen i ddod at ei gilydd yn y gymuned a rhoi anogaeth i'w gilydd fel disgyblion Iesu. Mae ein gobaith yn dragwyddol ond nid yw hynny'n golygu na ddylem boeni am y presennol. Mae gwireddu'r gobaith rydyn ni'n ei gael yn cynnwys sbarduno ein gilydd i wneud 'troeon da' a gweithredoedd o gariad yma ac acw.

Mae cymuned Aurelia yn ymgynnull yn eu heglwys ac yn eu cartrefi i gefnogi ei gilydd. Mae Aurelia yn benderfynol o annog menywod eraill a dangos iddyn nhw beth y gallan nhw ei gyflawni gyda'i gilydd: **'Rwy'n credu bod gan fenywod lawer o allu.'**

Gyda'r offer a ddarparwyd gan Congcoop, mae Aurelia a'i chymdogion wedi gallu gwerthu cynnyrch siocled maen nhw'n ei wneud o'u cynhaeaf cacao. Mae hyn yn rhoi ffynhonnell incwm rheolaidd i Aurelia, y mae hi'n gallu ei gwario ar hanfodion dyddiol fel sebon. Yn y tymor hwy, gall yr incwm helpu i gadw ei hwyrion yn yr ysgol.

**'Rydw i'n gwneud cynnyrch cacao gyda'm holl galon,'** meddai Aurelia. **'Efallai mai dyna pam mae blas cystal arnyn nhw!'**

**Allwch chi gofio adeg pan wnaethoch chi roi eich holl galon i wneud rhywbeth?** Mae Cymorth Cristnogol yn ymdrechu i fod yn wneuthurwyr newid, gan ddilyn esiampl Aurelia. Allech chi roi eich holl galon i ymuno â'n rhwydwaith byd-eang o wirfoddolwyr a defnyddio eich angerdd i ysbrydoli eraill? P'un ai codi arian yn eich eglwys leol, rhannu ein gweithredoedd ymgyrchu, neu siarad yn eich cymuned leol, mae sawl ffordd o droi eich ffydd yn weithredoedd – ac annog eraill i roi, gweithredu a gweddïo dros ein gwaith. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **caid.org.uk/Volunteer**



**Mae Aurelia a'i ffrind, Sofia, yn gweddïo cyn cynhyrchu eu blawd cacao.**

**Iesu,** rho i ni galonnau tyner,
a gwna ni'n anogwyr.
Llenwa ni â thrugaredd tuag
at ein cymdogion byd-eang.
Boed i ni gael ein hysbrydoli
gan bobl sy'n frwd dros newid.
Annog ni i wneud dy waith yn
llawn cariad.
**Amen.**

# Dydd Gwener

**'Dyma dw i'n ei orchymyn: Carwch eich gilydd fel dw i wedi'ch caru chi.'** (Ioan 15:12)

**Darllenwch Ioan 15: 9-17**

Mae Iesu yn gorchymyn y dylem garu ein gilydd fel yr ydym ni'n cael ein caru. Drwy ddangos cariad at ein cymdogion, rydyn ni'n tyfu i fod yn debyg i Grist. **Sut byddwch chi'n dangos cariad at y rhai rydych chi'n cwrdd â nhw heddiw? Beth allech chi ei wneud i ddangos cariad at eich cymdogion byd-eang?**

Fel Aurelia, mae Amelia'n perthyn i gymuned Q'eqchi'. A hithau'n 24 oed, mae hi eisoes yn ffermwr dyfeisgar a phenderfynol. Mae Amelia hefyd yn gôl-geidwad i'r tîm pêl-droed lleol. Dywedodd Amelia wrth Cymorth Cristnogol: **'Rydw i wedi cael fy nghyfareddu gan blannu erioed, ac wedi bod wrth fy modd yn gwneud hynny ers pan oeddwn i'n ifanc iawn.'**

Erbyn hyn, mae'r planhigion mae hi'n gofalu amdanyn nhw mor dyner yn marw oherwydd tywydd poeth a phroblemau gyda'r cyflenwad dŵr. Mae Amelia wedi gweld newidiadau hyd yn oed yn y cyfnod byr ers ei phlentyndod. Mae'r afon ddofn y dysgodd nofio ynddi bellach yn gostwng mor isel â'i ffêr ar adegau.



**Amelia gyda'i merch bedair oed, Yakelin.**

Mae Amelia wedi ymuno â rhaglen hyfforddi Congcoop i ddysgu am hadau brodorol a datblygu amserlenni plannu a fydd yn ei helpu i addasu i'r argyfwng hinsawdd. Yna, mae hi'n trosglwyddo'r wybodaeth hon i grŵp o 28 o fenywod eraill yn ei hardal. Mae ei merch pedair oed, Yakelin, wrth ei bodd yn ymuno ag Amelia ar gyfer hyfforddiant.

Mae Amelia yn uchelgeisiol drosti hi ei hun a'i theulu ond mae hi'n gwybod bod llawer o fygythiadau o hyd sy'n effeithio ar ei gallu i dyfu cnydau a darparu bwyd i'w phlant. **'Yn y dyfodol, dydw i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl - fe allai pethau fod yn waeth, fe allai pethau fod yn well. Yr unig un sy'n gallu dweud yw Duw.'**

**Neilltuwch amser heddiw i weddïo dros Amelia a'i theulu ac ystyriwch beth allech chi ei wneud i gynorthwyo menywod fel hi.** Archwiliwch syniadau yma: **caid.org.uk/Get-involved**

**Iesu,** rwyt ti'n ein caru ni yn fwy nag y gallwn ni ei fesur.
Helpa ni i dyfu i fod yn debyg i ti, gan ddangos cariad at ein gilydd.
Bendithia'r rhai sy'n wynebu dyfodol ansicr.
Agor ein llygaid i'r heriau mae ein cymdogion byd-eang yn eu hwynebu bob dydd.
**Amen.**

# Dydd Sadwrn

**‘Felly dw i’n gweddïo y bydd Duw, ffynhonnell gobaith, yn llenwi’ch bywydau gyda’r llawenydd a’r heddwch dwfn sy’n dod o gredu ynddo; ac y bydd yr Ysbryd Glân yn gwneud i obaith orlifo yn eich bywydau chi!’**
**(Rhufeiniaid 15:13)**

**Darllenwch Rhufeiniaid 15:1-13**

Nid oes terfyn ar obaith Aurelia ac Amelia. Maen nhw wedi gwrthsefyll effaith sychder difrifol, stormydd garw a’r tywydd mwyaf poeth a brofwyd ganddyn nhw erioed.

Maen nhw hefyd wedi sefyll dros eu hawliau a’u dyfodol. Mae ffermwyr brodorol dan bwysau i ildio’u tir ond mae Congcoop wedi helpu i sicrhau bod gan ffermwyr ddewisiadau eraill.

Fel y dywed Aurelia: **‘Rydyn ni wedi bod yn ddigon dewr i beidio â gwerthu ein tir, ac i weithio arno i gynhyrchu beth bynnag y gallwn ni.’**



Aurelia yn dangos y gwrtaith organig y mae hi wedi dysgu sut i’w wneud.

Mae adnod heddiw yn ein hatgoffa y gallwn, drwy bŵer yr Ysbryd, gael ein bendithio â gobaith sy’n gorlifo. Nid ar gyfer y dyfodol yn unig y mae’r gobaith hwn, ond ar gyfer y presennol hefyd. Drwy ras Duw, mae’r gobaith hwn yn eiddo i ni, i’w rannu gyda’n gilydd.

Mae Aurelia yn glir bod **‘newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu bob dydd.’** Mae’n fygythiad angheuol i’w ffordd o fyw. Ond gyda’n gilydd gallwn ei helpu hi wrth iddi hi ddod o hyd i ffyrdd newydd o ffermio. Gyda’r cymorth priodol, gall mwy o gnydau oroesi, gellir adfer ffrwythlondeb y pridd, a gall cymuned Aurelia fynd ar drywydd dyfodol cynaliadwy a diogel, mewn cytgord â’r tir.

Mae Cymorth Cristnogol yn ymuno â gobaith Aurelia na fydd yr un teulu’n gorfod poeni am yr hyn y bydd eu plant a’u hwyrion yn ei fwyta.

**Heddiw, rhannwch y geiriau bendithiol o’r epistol at y Rhufeiniaid gyda rhywun sy’n bwysig i chi. Ystyriwch beth sy’n rhoi gobaith i chi a sut gallwch chi roi’r rhodd o obaith ar waith.**

**Dduw cyfiawnder,**
Tywallt dy Ysbryd,
fel y gallwn fod yn orlawn o obaith.
Pan fyddwn ni’n teimlo ein bod ni wedi cael ein trechu,
rho ddewrder i ni,
a’n hatgoffa ni nad oes dim yn amhosibl gyda thi.
**Amen.**

# Harneisio pŵer perthynas

Mae bore coffi neu ddigwyddiad Wythnos Cymorth Cristnogol yn ffordd wych o gwrdd â chynrychiolwyr gwleidyddol a helpu i gyflwyno newidiadau sydd eu hangen ar ffermwyr fel Aurelia.

Mae Helen Hughes, un o gefnogwyr Cymorth Cristnogol, yn rhoi ei ffydd ar waith drwy siarad â'i gwleidydd lleol am yr argyfwng hinsawdd. I Helen, sydd, yn anffodus, wedi ein gadael ni ers hynny, mae'n rhan o'i gwaddol.

Dywedodd: **'Gallwn wneud cymaint fel unigolion, ond pobl mewn llywodraethau sydd â'r grym i wneud gwahaniaeth go iawn.'**

Gwrandewch ar fyfyrdodau Helen yn **caid.org.uk/Helen**
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **caid.org.uk/CAWpoliticians**




**Grŵp Cymorth Cristnogol Castle Cary yn cwrdd â'u hymgeisydd etholiadol – eu Haelod Seneddol erbyn hyn – Sarah Dyke yn ystod eu bore coffi Wythnos Cymorth Cristnogol.**

## Mwy o ffyrdd o weddïo

Cofrestrwch ar gyfer e-bost gweddi ac addoli misol Cymorth Cristnogol i gael adnoddau ac awgrymiadau yn syth i'ch blwch derbyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **caid.org.uk/Pray**

## Cymorth Cristnogol a'ch Eglwys

Gall cymuned eich eglwys wneud gwahaniaeth yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni a thu hwnt. Trefnwch siaradwr, cynlluniwch ddigwyddiad, neu dysgwch fwy am sut y gallwn ni weithio gyda'ch eglwys. Ewch i **caid.org.uk/Church** am fanylion.

## Fy ngobaith i. **Fy ewyllys i.**

# Trowch oes o obaith i'r newid rydych chi eisiau ei weld yn y byd gan roi rhodd yn eich Ewyllys.



Aurelia a'i hwyrion, ei thad a'i merch yng nghyfraith.

Mae Aurelia yn ffermwr ysbrydoledig ac yn arweinydd cymunedol yn Guatemala. Mae Aurelia hefyd yn nain sydd eisiau amddiffyn ei theulu.

Wrth i dywydd eithafol ladd cnydau ar dir Aurelia, mae bwyd yn prinhau, gan effeithio ar ei gallu i ddarparu ar gyfer ei hanwylion. Ond gyda gobaith di-baid a hyfforddiant arbenigol, mae Aurelia yn arwain ei chymuned i dyfu cnydau cydnerth sy'n fwy addas ar gyfer y newid yn yr hinsawdd.

**Gall rhodd yn eich Ewyllys gynorthwyo cymunedau fel un Aurelia i ddiogelu eu ffermydd a'u dyfodol. Felly, un diwrnod, ni fydd yr un teulu'n poeni am eu plant yn gorfod mynd heb fwyd.**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **caid.org.uk/Legacy**

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghrair ACT. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif elusen yr Alban SC039150 Rhif y cwmni 5171525 Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol. Argraffwyd ar ddeunydd a gafwyd o goedwigoedd a reolir yn gyfrifol © Cymorth Cristnogol Medi 2024 Lluniau: Cymorth Cristnogol/Amy Sheppey J516201

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

CAM-009036 F25015WL